Rees a Rowlands

# RADAM

**(dull asesu trafodaeth trwy arfarnu darllenadwy)**

**Cyflwyniad**

Mae hon yn ddogfen ADAM ddiwygiedig sydd â'r nod o fod yn ddarllenadwy a defnyddiol i arfarnwyr.
Roedd cydweithwyr yng Nghymru wedi nodi'n flaenorol **ein bod yn ymdrin ag wyth maes yn y drafodaeth arfarnu.**
Nododd y prosiect hwn yr hyn y mae arfarnwyr yn ei wneud yn ystod y drafodaeth arfarnu ac yna **dyrannwyd ymddygiadau arfarnwr i un o dri chategori: rhagorol, cymwys ac angen datblygiad pellach.**
Gobeithiwn y bydd y fformat syml hwn yn helpu arfarnwyr i gael gafael ar y wybodaeth ac i'w defnyddio fel adnodd ar gyfer eu gwaith arfarnu drwy ystyried maes yn y drafodaeth arfarnu a chymharu'r hyn a wnânt â RADAM ac yna gwneud newidiadau os oes angen.

**Maes un: Paratoi a chynllunio**

| Rhagorol | Cymwys | Angen ei ddatblygu ymhellach |
|---|---|---|
| Mae'r arfarnwr yn gwbl gyfarwydd â chynnwys tystiolaeth y meddyg gan gynnwys:<br>. gwybodaeth fanwl<br>. dealltwriaeth o broblemau<br>. gan arwain at hyblygrwydd wrth drafod<br>Mae'r arfarnwr yn adrodd yn ôl ar yr amhariad a achosir gan ymyriadau mynych neu sylweddol | Mae'r amgylchedd yn ymddangos yn addas i'r meddyg a'r arfarnwr:<br>. ystafell breifat<br>. trefniadau eistedd sy'n addas<br>Mae'n ymddangos bod gan yr arfarnwr nodiadau manwl, e.e. crynodeb arfarniad drafft<br>Mae'r arfarnwr yn cyfeirio at y nodiadau<br>Mae'r arfarnwr wedi cynllunio pa feysydd i'w trafod<br>Mae gan yr arfarnwr dystiolaeth o gwestiynau wedi'u paratoi<br>Mae'r arfarnwr yn gyfarwydd â thystiolaeth y meddyg<br>Mae'r arfarnwr yn cydnabod ac yn ymdrin ag ymyriadau | Mae'r amgylchedd yn ymddangos yn anaddas<br>. nid yw'n ystafell breifat<br>. trefniadau eistedd yn anaddas<br>Mae'n ymddangos nad oes gan yr arfarnwr unrhyw nodiadau<br>Does gan yr arfarnwr ddim tystiolaeth o gwestiynau wedi'u paratoi<br>Nid yw'r arfarnwr yn gyfarwydd â thystiolaeth y meddyg<br>Ymyriadau gyda'r ffocws ar yr arfarnwr |

**Maes dau: Ymgysylltu ac esbonio (gan gynnwys cyfeirio)**

**Rhagorol**

Diben:
. cydnabod cyflawniadau
. adnabod rhwystrau
. cynhyrchu CDP
Agenda (cofnodion tystiolaeth y meddyg):
. pwysig i'r meddyg
. pwysig i'r arfarnwr
. perthnasol i gyfrifoldebau
. canolbwyntio ar ofal cleifion
. gofyniad ail-ddilysu
. gofyniad trydydd parti
Y broses:
. trafod cofnodion/cyfyngiadau/myfyrdodau tystiolaeth y meddyg
. meysydd i'w datblygu (pwynt gweithredu)
Y drafodaeth yn cynnwys:
. agwedd y meddyg at arfarnu
. rôl gwaith y meddyg – a chyswllt â'r arfarniad
. rôl yr arfarnwr yn hwyluso/herio/trosglwyddo gwybodaeth pan fo'n briodol

**Cymwys**

Wedi gwneud cyflwyniadau
Trafodaeth anffurfiol (torri'r iâ)

Cyfeirio:
. y diben wedi'i ddisgrifio
. yr agenda wedi'i disgrifio
. yr amserlen wedi'i disgrifio
. y broses wedi'i disgrifio gan gynnwys trafod CDP y llynedd

**Angen ei ddatblygu ymhellach**

Dim cyflwyniadau
Dim, neu ormod o trafodaeth anffurfiol
Dim/fawr ddim disgrifiad o'r pwrpas
Dim/fawr ddim disgrifiad o'r agenda
Dim/fawr ddim disgrifiad o'r broses
Dim/fawr ddim tystiolaeth o gyfeirio

**Maes tri: CDP y llynedd**

**Rhagorol**

CDP y llynedd:
. archwilio canlyniadau eitemau'r CDP a gyflawnwyd
. tystiolaeth o herio eitemau nas cyflawnwyd
. ystyried cyfyngiadau

**Cymwys**

Eitemau CDP y llynedd wedi'u trafod:
Cyflawniad wedi'i nodi
Cydnabod cyflawniad
Nodi'r eitemau oedd heb eu cyflawni
Rhesymau dros beidio â chyflawni wedi'u nodi

**Angen ei ddatblygu ymhellach**

CDP y llynedd:
. CDP diwethaf heb ei drafod
. cyflawniadau heb eu nodi
. eitemau heb eu cyflawni wedi'u hanwybyddu

| | | |
|---|---|---|
| . ailadrodd pwysigrwydd a pherthnasedd CDP yng nghyswllt ail-ddilysu | Trafodaeth ynghylch perthnasedd parhaus eitemau CDP heb eu cyflawni, gan arwain at nodi pwyntiau gweithredu pellach | |

**Maes pedwar: Trafod tystiolaeth arfarnu'r meddyg a chytuno ar bwyntiau gweithredu**

| Rhagorol | Cymwys | Angen ei ddatblygu ymhellach |
|---|---|---|
| Mae’r arfarnwr yn annog hunanwerthusiad gan y meddyg<br>Mae’r arfarnwr yn herio i ddatgelu’r canlynol gan y meddyg:<br>. effaith ar weithgaredd proffesiynol<br>. perthnasedd i ofal cleifion<br>. rhesymeg<br>. diddordeb<br>. cymhelliant<br>. arddull ddysgu ddewisol<br>. syrthni datblygiadol<br>Pwyntiau gweithredu wedi'u cyfiawnhau – trwy berthnasedd i rôl y meddyg a thrafodaeth o’r posibiliadau canlynol:<br>. newid mewn gweithgaredd proffesiynol<br>. gwelliannau o ran gofal cleifion<br>. cymhelliant<br>. diddordeb<br>. ail-ddilysu<br>. arddulliau dysgu | Eitemau wedi'i dewis oherwydd:<br>. dewis y meddyg<br>. cyfrifoldebau'r meddyg<br>. dewis yr arfarnwr drwy gyd-drafod<br>. canolbwyntio ar ofal cleifion<br>. gofyniad ailddilysu<br>. gofyniad trydydd parti<br>Mae’r arfarnwr yn rhoi crynodeb byr o dystiolaeth y meddyg gan arwain at drafodaeth newydd<br>Mae’r arfarnwr yn hwyluso<br>Mae’r arfarnwr yn procio, casglu mwy o wybodaeth gan ddefnyddio:<br>. gwirio i gadarnhau dealltwriaeth<br>. crynhoi i gadarnhau dealltwriaeth<br>Mae’r arfarnwr yn annog y meddyg i nodi pwyntiau dysgu<br>Pwyntiau gweithredu wedi'u nodi o'r drafodaeth 'camau nesaf'<br>Pwyntiau gweithredu wedi'u cytuno<br>Mae’r arfarnwr yn gweithredu fel adnodd ar gyfer gwybodaeth am arfarnu ac ailddilysu | Eitemau i'w trafod wedi'u dewis ar hap<br>Mae'n ymddangos bod y meddyg yn ailadrodd y meysydd a ddisgrifiwyd/yr adlewyrchwyd arnynt yn F3 (drwy ddiffyg crynhoad gan yr arfarnwr)<br><br>Drwy beidio â holi neu herio, mae'r arfarnwr yn ychwanegu dim gwerth at y deunydd a drafodwyd<br>Mae'r arfarnwr yn:<br>. profi gwybodaeth<br>. gweithredu fel athro<br>. cyfarwyddo<br>Mae’r arfarnwr yn methu â nodi pwyntiau dysgu<br>Ni ystyrir pwyntiau gweithredu |

**Maes pump: Cyfyngiadau**

| Rhagorol | Cymwys | Angen ei Ddatblygu Ymhellach |
|---|---|---|
| Gwerth ehangach cyfyngiadau wedi'i drafod o ran darparu gwasanaethau lleol ac addysg<br>Cyfyngiadau newydd wedi'u nodi a'u labelu felly yn y drafodaeth.<br>Cyfyngiadau'n cael eu nodi a'r arfarnwr yn herio i geisio cael atebion posibl neu wirioneddol<br>Y pwyntiau gweithredu o drafod cyfyngiadau:<br>. wedi'u nodi<br>. wedi'u hystyried<br>. wedi’u cytuno | Mae’r cyfyngiadau wedi'u nodi wrth drafod y canlynol mewn perthynas â’r meddyg:<br>. rôl a chyfrifoldebau'r meddyg<br>. Cofnodion F3 gan gynnwys:<br>. gonestrwydd ac iechyd<br>. myfyrdodau<br>. cofnodion cyfyngiadau<br>. CDP y llynedd<br>Dadansoddiad o gyfyngiadau drwy drafodaeth fer<br>Absenoldeb cyfyngiadau wedi'i drafod | Mae'r cyfyngiadau:<br>. heb eu nodi<br>. heb eu trafod<br>Cydgynllwynio ‘Ni ellir gwneud dim' |

**Maes chwech: Cytuno ar y CDP**

| Rhagorol | Cymwys | Angen ei Ddatblygu Ymhellach |
|---|---|---|
| CDP byw yn cael ei ystyried<br>Eitemau CDP byw yn cael eu cyfiawnhau drwy drafodaeth fer<br>Caiff eitemau CDP eu blaenoriaethu yn ôl:<br>. diddordeb y meddyg<br>. cyfrifoldeb proffesiynol y meddyg<br>. dysgu i wella gofal cleifion<br>. gofyniad proffesiynol y meddyg (e.e. ailddilysu)<br>. i ddangos dilyniant o'r CDP diwethaf<br>Mae’r arfarnwr yn annog perchenogaeth y CDP drwy’r canlynol:<br>. mae’r meddyg yn nodi deilliannau dysgu<br>. mae’r meddyg yn disgrifio dogfennaeth i ddilysu dysgu | Cyfeirio 'amser CDP’<br>Neilltuo amser i gynllunio'r CDP<br>Mae’n ystyried pwyntiau gweithredu o:<br>. gofnodion tystiolaeth y meddyg<br>. cyfyngiadau<br>. gonestrwydd ac iechyd<br>. CDP y llynedd<br>Mae Pwyntiau Gweithredu’n cael eu blaenoriaethu’n gofnodion CDP<br>Mae’r arfarnwr yn cyd-drafod y CDP i’w wneud yn:<br>. benodol<br>. cyflawnadwy<br>. anelu at wella gofal cleifion | Dim cyfeirio at amser CDP<br>Dim amser CDP pwrpasol<br>Pwyntiau gweithredu:<br>. heb eu hadolygu<br>. heb eu blaenoriaethu<br>Mae’r CDP wedi'i lunio'n bennaf gan yr arfarnwr<br>Dim ystyriaeth i:<br>. benodolrwydd<br>. cyflawnadwyedd |

. mae’r meddyg yn cytuno ar amserlen

**Maes saith: Camau nesaf a chau'r drafodaeth**

| Rhagorol | Cymwys | Angen ei Ddatblygu Ymhellach |
|---|---|---|
| Mae’r arfarnwr yn cau'r drafodaeth ar ôl gwirio nad oes 'unrhyw beth arall' cyn symud ymlaen | Y camau nesaf wedi'u trafod:<br>. cwblhau'r crynodeb arfarnu, amserlen<br>. cyswllt e-bost<br>. y meddyg i adolygu crynodeb arfarnu<br>. y meddyg i gytuno ar y crynodeb arfarnu neu ofyn am welliannau<br>. yr arfarnwr yn awgrymu dewis yr arfarnwr nesaf<br>Mae’r arfarnwr yn cyfeirio at ddiwedd y drafodaeth ac yn cau'r drafodaeth | Dim diwedd clir i'r drafodaeth<br>Mae’n hepgor y camau nesaf |

**Maes wyth: Annog perchenogaeth o'r crynodeb arfarnu**

| Rhagorol | Cymwys | Angen ei Ddatblygu Ymhellach |
|---|---|---|
| Mae'r arfarnwr yn cydnabod ac yn archwilio'r rhesymau dros ymatebion emosiynol y meddyg<br>Mae'r arfarnwr yn annog y meddyg i fyfyrio drwy ennyn:<br>. syniadau<br>. pryderon<br>. disgwyliadau<br>. effaith ar dîm y meddyg<br>. teimladau tîm y meddyg<br>. effaith ar ofal cleifion<br>Mae’r arfarnwr yn gallu defnyddio hwyluso a rhoi gwybodaeth pan fo'n briodol<br>Mae’r arfarnwr yn cynnal arfarniad â ffocws, heb gau'r drafodaeth, tra'n cynnal hyblygrwydd | Mae’r arfarnwr yn cydnabod ac yn rheoli materion cyfrinachedd<br>Mae'r arfarnwr yn dangos diddordeb ac mae'r meddyg yn cymryd rhan, sefydlir cydberthynas:<br>. cyswllt llygad<br>. anogaeth lafar<br>. hwyluso di-eiriau<br>. cydnabod emosiwn<br>. defnyddio iaith hwylusol<br>. hiwmor yn cael ei rannu<br>Mae’r arfarnwr yn :<br>. cydnabod cyflawniad y meddyg<br>. rhannu profiadau er mwyn hwyluso<br>. rhoi adborth ar sail cymheiriaid | Cyfrinachedd yn cael ei dorri gan yr arfarnwr<br>Mae’r arfarnwr:<br>. yn ymddangos nad oes ganddo ddiddordeb gan arwain at ymddieithriad y meddyg<br>. yn anwybyddu cyflawniad y meddyg<br>. ddim yn rhoi cyngor pan fo'i angen<br>Mae'n ymddangos bod y arfarnwr yn:<br>. addysgu<br>. dangos ei hun<br>. hunan-anghymeradwyo<br>. bychanu<br>Mae'r arfarnwr yn dominyddu ac nid yw'n annog cyfraniad y meddyg: |

| | |
|---|---|
| . hwyluso'n bennaf<br>. rhannu gwybodaeth (e.e. proses, ailddilysu) | . mae'r arfarnwr yn pennu ei ddewis ei hun o gofnodion tystiolaeth y meddyg<br>. mae'n anwybyddu ciwiau geiriol<br>. mae'n anwybyddu ciwiau di-eiriau<br>Mae ieithwedd yr arfarnwr neu ddefnydd amhriodol o iaith yn achosi camddealltwriaeth |